OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 1257 (Cy. 134)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 44 (Lôn Las) i Gyffordd 45 (Ynysforgan), Abertawe) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013

Gwnaed	*3 Mehefin 2013*
Yn dod i rym	*10 Mehefin 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Mehefin 2013 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 44 (Lôn Las) i Gyffordd 45 (Ynysforgan), Abertawe) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 10 Mehefin 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r draffordd” *(“the lengths of the motorway”)* yw:

i. y darn o brif gerbytffordd y draffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ddechrau'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 44 i ddiwedd y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan);

ii. y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 44 (Lôn Las).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwahardd

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd y darnau o'r draffordd.

Cymhwyso

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 3 Mehefin 2013

R Morgan
RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.